

# Gair bach Bethlehem 32



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 32 202 (Rhifyn cyn Nadolig)



(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)



Neges Nadolig



## Cannwyll yn Olau.



Bore Sul diwetha' mi ge's i'r fraint o oleuo kannwyll Sul cynta'r Adfent yng nghapel Bethel Rhiwbeina, a'r Sul nesa'; os byw ac iach, gawn ni oleuo'r ail gannwyll gyda'n gilydd ym Methlehem. Yr Adfent, tymor y canhwylau, tymor y goleuni. Mae 'na bedair kannwyll, kannwyll Gobaith yw'r gynta', yna kannwyll Heddwch, yna Llawenydd a Chariad. Ma' rhai yn eu henwi'n wahanol, yn dechrau gyda channwyll y Broffwydoliaeth, yna kannwyll Bethlehem, yna'r Bugeiliaid, cyn cwpla gyda channwyll yr Angylion a'u neges o "Dangnefedd". A phwrpas y canhwylau? Ie, ein harwain, fel y seren, at oleuni'r baban Iesu, Goleuni'r Byd yn y crud.

Ma' canhwylau a goleuni'n rhan annatod o sawl crefydd, goleuni'r fflam tragwyddol oedd canolbwynt crefydd y Doethion a ddaeth o'r Dwyrain, 9 kannwyll y Menorah yw canolbwynt Gwyl Goleuadau'r Iddew, yr Hannukah, ac ma' miloedd o ganhwylau'n cael eu cynnu yn nathliadau Diwali y Sîc, yr Hindw, y Jain a'r Bwdydd, y cyfan i ddathlu bod goleuni'n drech na phob tywyllwch.

Os gofiwch chi, flwyddyn yn ôl, a ninne'n ddwfn yng nghanol cyfyngiadau Cofid, fe sonion ni am ganhwylau mudiad Kwanzaa, mudiad a sefydlwyd i ddiogelu a dathlu'r diwylliant Affro Americanaidd, a hynny 50 mlynedd yn ôl. Dros y Dolig ma' nhw'n cynnu 7 kannwyll, ac fel ein canhwylau Adfent ni, ma' ystyr i bob un. Nawr, sain mynd i sôn amdany'n nhw'i gyd neu byddwch chi'n dal i ddarllen hwn wrth baratoi'r twrci, ond dyma'ch atgoffa chi o ddau ohony'n nhw.

Cannwyll Ujima, sef kannwyll Cyfrifoldeb. Y cyfrifoldeb o gynnal cymdeithas, gan dderbyn "bo problemau'n brodyr a chwiorydd yn broblemau i ni". Geiriau doeth i arweinwyr gwlad, yn arbennig yn y dyddiau Omicron-aidd yma, sy'n ein hatgoffa bod "neb yn ddiogel nes bo pawb yn ddiogel". Ac yna kannwyll Ku-umba - kannwyll yr Addewid - "yr addewid i wneud popeth posib er mwyn sicrhau bod ein cymdeithas; a'r gymdeithas ehangach, yn harddach yfory nag o'dd e' ddoe, ac i wneud popeth o fewn ein gallu; cyn i ni fynd o'r hen fyd yma, i sicrhau ei fod e' mewn gwell cyflwr nag yr oedd pan gyrhaeddodd ni."

'Na chi sialens! Yn ddiau, sialens i "ddoethion" Cop26, "bugeiliaid" y blaned. A sialens byddai pob plentyn bach ym Methlehem Jiwdea heddiw yn cydsynio ag e', ac un y byddai Goleuni'r Byd yn awyddus i'w ddilynwyr - "plant y goleuni - i'w dderbyn.

Mewn gobaith, heddwch, llawenydd a chariad.

*Delwyn.*

*Dyma'r oedfaon dros yr wythnosau nesaf*

## **Suliau Bethlehem – Y Nadolig, ac o'r Calan hyd ddechrau Chwefror**

*(am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol)*

### **Mis Rhagfyr 2021 (sylwer ar amseroedd gwahanol yr oedfaon):**

**5 Rhagfyr** – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion (5:00 p.m.)

**12 Rhagfyr** – “Naw Llith a Charol” (5:00 p.m.)

**19 Rhagfyr** – Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul (10:30 a.m.)

**25 Rhagfyr** – Oedfa Bore'r Nadolig (10:00 a.m.)

**26 Rhagfyr** – DIM OEDFA

### **Mis Ionawr 2022: (oedfaon am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol)**

**2 Ionawr** – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion

**9 Ionawr** – Oedfa Blygain (5:00 p.m.)

**16 Ionawr** – Oedfa dan ofal Emlyn Davies

**23 Ionawr** – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones

**30 Ionawr** - Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards

### **Mis Chwefror 2022 :**

**6 Chwefror** - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion



## **Yr Ysgol Sul yn ôl**

**Noder: Ac eithrio cyfnod gwyliau'r ysgolion, bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd yn y Ffestri.**

Isod, fe welwch yr aelodau yn un o'r cyfarfodydd cyntaf wedi iddyn nhw ddychwelyd i gyd-gyfarfod yn y festri. Branwen oedd yn arwain ar y bore dan sylw.

Bellach maen nhw'n brysur yn ymarfer ar gyfer y cyflwyniad Nadolig ar fore Sul, Rhagfyr 19, am 10.30.



## Cymorth i Gymorth Cristnogol

Rhodri-Gwynn Jones

Mae Cymorth Cristnogol unwaith eto eleni yn ein hannog i gymryd saib cyn dewis anrhegion Nadolig, er sicrhau ein bod yn prynu anrhegion o wir werth i'r derbynnydd.

Ac o gofio am y flwyddyn a aeth heibio, mae Cymorth Cristnogol yn ein cymell i gofio am wledydd a phobloedd tlotaf ein byd, gan gofio am y difrod y mae rhyfel, cynhesu byd-eang, a coronafeirws wedi ei greu yn eu plith.

Mae cynllun ganddynt lle y gellir cyflwyno "rhodd" Nadolig i bobloedd nad ydym yn eu hadnabod, nac yn debyg byth o'u cyfarfod, ond a fyddai, serch hynny yn fodd o gynnig help llaw a chariad iddynt yn eu gwewyr, ac a fyddai o bosibl yn rhoi cyfle iddynt ail-adeiladu eu bywyd a'u cymunedau.

Mae amrywiaeth o gynlluniau y gellir eu cefnogi, a symiau amrywiol o arian y gellir ei gyflwyno i Gymorth Cristnogol er hybu'r fath ymgyrchoedd:-

Mae plentyn yn marw yn Nigeria pob 60 eiliad o glefyd malaria – gellir prynu "rhwyd warchod" am £15 a fyddai'n sicrhau cwsig heb frathiad y mosgito!

Mae modd buddsoddi £9 i alluogi ffermwyr yn Nicaragua i brynu hadau coco, gan arallgyfeirio o dyfu coffi yn y fargen. Pwy sy'n hoff o siocled tybed?

Am £19 gellir sicrhau hyfforddiant teilwra i ferched yn yr India.

Gellir prynu gafr i deulu yn Bwrwudi am £35, a fyddai yn sicrhau llaeth iddynt i wneud menyn a chaws, i'w werthu, a derbyn incwm i'w cynnal.

Yn Kenya gall £60 brynu cwch gwenyn i deulu, a byddai'r incwm o'r cynnyrch yn eu galluogi i anfon eu plant i'r ysgol.

A chost buwch yn Bangladesh yw £187, a byddai'r llaeth, i'w yfed a'i werthu yn y farchnad, yn gynhaliath i deulu.

Mae yna nifer eraill o awgrymiadau gan Cymorth Cristnogol i'w cynnig - cymerwch gip ar:-

**[Charity-gifts.christianaid.org.uk](http://Charity-gifts.christianaid.org.uk)**

Nadolig Llawn i bobloedd y byd yw neges gyson Bethlehem, Gwaelod-y-garth, wedi bod erioed.

Dyma un cam arall y gallwn ei gymryd i wireddu hynny - beth amdani!



*(O.N. Mae prynu "Cerddi'r Cadeirle Bach", Hannah Roberts, yn cynnwys cyfraniad tuag at elusen Cymorth Cristnogol. Gweler hefyd y ddau neges ddaeth i'n Trysorydd, ar y dudalen nesaf)*

**Yng Nghwrdd Chwarter Cyfundeb Dwyrain Morgannwg, ar Ragfyr 8, fe fyddan nhw'n offrymu gweddi er cof am yr aelodau o holl eglwysi'r Cyfundeb sydd wedi ein gadael ers i'r Cwrdd Chwarter diwethaf gael ei gynnal, a hynny ar Fawrth 26, 2020.**

**Bydd enwau'r rhai annwyl a gollwyd o'n plith, yma ym Methlehem, yn cael eu cofio yn y weddi goffa.**

## Dau nodyn o ddiolch

Daeth y nodyn o ddiolch isod oddi wrth Heather Cox, Trysorydd Canolfan y Drindod (ein helusen leol). Gyrrais £1000 gan ddweud bod amgylchiadau wedi'n hatal rhag y codi arian a fwrriadom gan obeithio y byddai'n eu cynorthwyo gyda'u gwaith. Fe welwch gyfeiriad at un o'n haelodau, Fflur, yn yr ateb!



Annwyl Peredur,  
 A fydddech cystat â throsglwyddo  
 ein diolch o galon i bawb yn yr  
 Eglwys Amibyrnod am eu rhodd  
 hael iawn i'n gwaith yn y  
 Gardfan Drindod.  
 Mae ein cafnogaeth i ffronduriaid  
 wedi bod yn anodd dros y  
 pendemig orl yn aros rydym  
 yn llwyddo i ogwr r Gardfan  
 a darparu gwasanaethau  
 mawr eu hogen iddynt.  
 Rhwng wybod ini os hoffed  
 chi ymuedd Eir Gardfan -

byddem yn falch iawn o  
 gwel y cyfle i'ch tyws o  
 gumpas a chariotâu i chi  
 weld y gwaith sydd bellod  
 yn digwydd yn y Gardfan  
 Diolch yn fawr ennid  
 Heather  
 Trepasser  
 Sorry if the web is not great  
 - Fflur (who we are missing  
 greatly) is on maternity leave  
 - and she would usually check  
 it over !!!

Hefyd anfonais £1500 at fudiad Cymorth Cristnogol, £1000 i'w ychwanegu at gasgliad Haiti, a £500 arall gan na fu modd i'r eglwys gasglu at Cymorth Cristnogol ym mis Mai eleni



Credwn mewn byw cyn marw



We believe in life before death

Dr H P Evans,  
 23, Alfreda Road,  
 Yr Eglwys Newydd,  
 Caerdydd.  
 CF14 2EH

25 Hydref 2021

Annwyl Dr Evans a ffrindiau ym Methlehem,

Diolch o galon i chi am eich rhodd hael o £1500. Gyda'ch rhodd y Diolchgarwch hwn mae eich eglwys yn helpu cymunedau o amgylch y byd (gan gynnwys Haiti) i uno yn erbyn tiodi, anghyfiawnder a'r argyfwng hinsawdd.

Mae'r sefyllfa yn Ne Swdan yn benodol yn ddrwg iawn ar hyn o bryd, ble y credir fod 60% o'r wlad yn debygol o wynebu newyn difrifol. Mae eich dewis i roi mewn cariad i'ch cymydog byd-eang yn golygu y gallwn sicrhau mynediad i ddŵr glân, bwyd, hadau ac offer i gefnogi tyfu bwyd a maeth.

**Cofiwch os hoffech siaradwr i ymweld â chi yng Ngwaelod y Garth, byddwn yn falch iawn o ymweld.**

Unwaith eto, diolch yn fawr iawn i chi am eich rhodd hael.

Pob bendith a chofion cynnes,



**Dr Nathan Munday**  
 Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian

# Ymson ynghylch Anialwch

Rhys Powys

“Cer i’r siop i brynu cardiau Nadolig...” dyna oedd y gorchwyl ges i rai dyddiau yn ôl. “A gwna’n siŵr fod llun o Stori’r Geni arnyn nhw!” Wel, roedd hyn yn cymhlethu pethe!

Petawn i’n chwilio am lun o ddynion eira llon, mewn sgarffiau cochion, yn sglegrio ar hyd llyn wedi rhewi, neu Siôn Corn bollog yn casglu celyn, neu geirw yn hedfan yn hyderus y tu fewn i “snow globe” fydde dim problem - ond Bugeiliaid, Doethion a phreseb? Roedd hynny’n stori wahanol.

Fe es draw i’r siop Gymraeg leol a mynd i chwilio am y cardiau elusennol. Roedd llond bocs o gardiau addas yno dan y pennawd “Achub y Plant Dwyieithog”! Ardderchog! Fe brynais becyn - gan deimlo ychydig yn euog nad oeddwn wedi helpu i achub plant uniaith hefyd!

Ta waeth, llun y Doethion oedd ar y cerdyn. Y Doethion oedd fy hoff elfen o Stori’r Geni pan oeddwn i’n blentyn. Roedd rhywbeth cyffrous, dirgel a soffistigedig yn perthyn i stori’r tri. Y dillad gosgeiddig; y camelod egsotig a’r daith anturus trwy’r anialwch gyda dim ond seren i’w harwain. Roedden nhw’n ddynion deallus, dewr, arwrol - ac roedd y ‘deadline’ o gyrraedd Bethlehem mewn pryd i weld y baban yn ychwanegu elfen o gyffro a pherygl i’r stori.

Roedd cael actio un o’r brenhinoedd yn Nrama’r Geni yn y capel yn uchafbwynt gyrfa unrhyw gyw-actor ifanc. “Supporting role” oedd gan Joseff, a doedd e byth yn cael dweud rhyw lawer, ac roedd cael bod yn Mair ymhell y tu hwnt i’n cyrraedd o ran agweddau castio ceidwadol y 70au! Ond - brenin bach! Doedd dim ots pa un chwaith. Roedd enwau gwych gan y tri - Caspar, Melchior a Balthasar. Caspar fyddai’n arwain yr orymdaith fel arfer ond doedd hynny’n fawr o gyfrifoldeb ychwanegol chwaith gan mai lawr un ‘eil’, rownd trwy’r cyntedd a nôl lawr yr ‘eil’ arall i’r sêd fawr fyddai’r daith bob tro. Doedd dim angen gwybodaeth seryddol y tu hwnt i’r cyffredin i gyflawni hynny. Weithiau byddai’n rhaid cael “gwyriad” i ymweld â Herod ond roedd y gynulleidfa o’n plaid felly doedd Herod ddim yn rhwystr i gyrraedd pen y daith mewn gwirionedd.



Yna, ‘rôl cyrraedd y sêd fawr, fe gaem gymryd ein lle haeddiannol, ar y grisiau lan i’r pulpud, yn y ‘tableau’ traddodiadol gan ei lordio hi dros y bugeiliaid llwm, truenus fyddai’n eistedd wrth ein traed. Fe fydden nhw’n sylu lan yn llawn edmygedd arnom ein tri â’n coronau euraid, ein clogynnau sidanaidd a’r anrhegion drudfawr yn ein dwylo. “Ha ha!”, meddyliwn. “Unwaith roeddem ninnau yn fugeiliaid tlawd fel chithau, gyda dim ond ‘dressing gown’ tila, a lliain sychu llestri cyffredin i’n dilladu, ond bellach - wele ni!” Roedd cario bocs ‘sgidiau wedi’i lapio mewn papur aur yn curo tegan dafad pitw bob tro! “Aur, Thus a Mur...” medde ni yn falch, er nad oedd fawr o syniad gan neb beth, yn union, oedd yr anrhegion gwerthfawr hyn.

Yna fe glywais stori Artaban, y “pedwerydd gŵr doeth” ac mae hanes taith hwnnw, yn dosbarthu ei drysorau, yn fy hudo o hyd am ryw reswm. Ychydig iawn

o fanylion am y Doethion sydd yn Efengyl Mathew mewn gwirionedd ond mae’r stori wedi ysbrydoli artistiaid, beirdd, llenorion a cherddorion, o sawl cenedl ac o sawl diwylliant, ar hyd y canrifoedd.

Dim ond unwaith y bûm i mewn anialwch go iawn; y math o anialwch oedd ar glawr fy nghardiau Nadolig. Anialwch tawelwch; twyni tywod hyd y gorwel... anialwch lle nad oedd unrhyw nodwedd o fath yn y byd i arwain y ffordd. Anialwch y Wahiba oedd hwn ac roeddwn yno yng nghwmni criw ffilmio - a “Thelynos Oman”. Roeddwn i yno i gyfarwyddo rhaglen ddogfen, awr o hyd, yn darlunio bywyd Lynne Bassett, merch yr annwyl Menna, oedd yn cael ei chyflogi ar y pryd i ganu’r delyn bob prynhawn mewn gwesty arbennig o foethus ym Muscat. Wedi treulio diwrnodau yn ffilmio Lynne wrth ei gwaith, yn hamddena yn y gwesty ac yn crwydro’r ddinas a’r farchnad liwgar fe gododd y cyfle i adael Muscat er mwyn archwilio ychydig ar yr anialwch enfawr oedd yn amgylchynu’r brifddinas. Toyota Landcruisers oedd yr unig gerbydau fyddai’n gallu ein cludo trwy’r ‘wadis’ dyfnion ac roedd y gyrwyr lleol wrth eu boddau yn taflu’r cerbydau trymion dros frig y twyni a sglegrio’r llethr serth yr ochr arall.

Pan giliodd yr haul y tu ôl i’r twyni roedd yn rhaid rhoi’r camera heibio am y nos. Diflannodd gwres y dydd fel atgof - roedd hi fel bol buwch. Aeth ein gwesteion Bedouin ati i gynnu tân a pharatoi swper. Fe ddangoswyd i ni sut i dorri’r danteithion blasus gyda’n dwylo a dyna ni’n mwynhau gwledd go iawn dan y sêr; sŵn y tân yn cracio’r tawelwch - a neb yn teimlo’r awydd i ddechre cytgan o “Bing Bong Be”!

Pebyll heb nenfwd oedd ein llety - y math o “wind-breaks” fyddech chi’n eu gweld ar hyd y traeth yn Ynys y Barri yn y 70au. Ond anialwch go iawn oedd hwn. Diffoddwyd y tân; tawelodd y gwersyll; dim yn symud heblaw am ambell fadfall neu ymlusgiad fydde’n siffrwd trwy’r tywod. Dyna oedd heddwch, ymhell o sŵn y byd. Doedd dim i’w wneud

ond gorwedd yn llonydd, llonydd ar fatres denau, yn gobeithio na fyddai madfall neu neidr yn awyddus i ddringo ar fy mhen, a syllu ar y sêr. Yn nhywyllwch dudew y nen roedd modd gweld sêr y tu hwnt i'r sêr - yn haen ar ôl haen ddiidiwedd. Rhwng cwsg ag effro fe fûm yn syllu i berfeddion y bydysawd...

Y bore wedyn roedd yn rhaid pacio pob dim ac anelu nôl i'r byd go iawn. Roeddwn i ar goll yn llwyr ond roedd y gyrywyr, rywsut, yn gwybod sut i anelu'r cerbydau nôl am y ddinas. Roedden nhw wedi bod yn dilyn yr un llwybrau ers cenedlaethau heb sat-nav, na seren, i'w harwain. Gobeithio y byddwn ni i gyd, hefyd, yn gallu ffeindio'n ffordd trwy'r anialwch i Fethlehem dros yr wyl gan ddilyn y llwybrau cyfarwydd - a siawns mai seren, ac nid sat-nav, fydd yn ein harwain ninnau bryd hynny.

## GAIR YN EI LE

Rhian Philips

Arferwn, ers talwm, drefnu teithiau hyd Ogledd Cymru i ddifyrru y rhai ddeuai efo'r gwyddonwyr i gynadleddau blynyddol yn Wrecsam. "Wives" i ddechrau a aeth yn "spouses" a "persons" wedyn.

Erbyn y blynyddoedd olaf aeth yn rhy ddrud i fawr neb ddod a phartner efo nhw!

Pob tro fe fyddwn yn teimlo rhyw wagle yn fy nghyflwyniad. Doeddwn i ddim yn gwneud cyfiawnder a'r fro oedd mor agos at fy nghalon! Methu wnawn rhoi bys ar y peth ond rhyw anesmwythyd yn procio.

Mae golygfeydd yr ardal yn siarad drostynt eu hunain, wrth gwrs, o foethusrwydd Dyffryn Clwyd, o Oriel darluniau Bro Aled hyd at y llyn rhwng y ddwy Aran. Ac am Afon Dwyfor yn rhedeg trwy Ddyffryn Maentwrog – wel, dim geiriau'n ddigon.

Lle'r ardal yn hanes Cymru ddim cymaint o broblem. Rhyw awyrgylch ??? O gwmpas y "cestyll".

Fy mhroblem i oedd profi 'hud' yr ardal i rai di-Gymraeg. Clwstwr o gerrig ar y graig oedden nhw i'w weld a finnau'n cofio:

'Ar graig yn Harlech slawer dydd  
Eisteddai Bran yng nghwmni'i wŷr.'

Doedd ffermdy bach di-nod Y Lasynys yng nghysgod y castell yn fawr o agoriad i'r sylfaen mor bwysig i ryddiaith Cymru. Roedd y diweddar John Gwilym Jones yn sôn amdano'i hun yn dadansoddi brawddegau y Bardd Cwsg fesul brawddeg a'i rhoi fesul enw, berf, ansoddair ag ati yn batrwm iddo'i hun lunio brawddegau tebyg. Roedd troglwyddo cyfoeth o'r fath yn ormod i lond bws a ddieithriad!

Ond un Nadolig cefais anrheg arbennig. Tydw i ddim yn credu imi gael un mwy gwerthfawr ac sy'n dal i roi pleser wrth ei fyseddu. 'Gair yn ei le' yw'r enw ac os nad ydych wedi ei gael brysiwch i'w nol.

Cywaith yw'r llyfr yn rhoi portread mewn lluniau camera a geiriau pwrpasol o hanner cant o lefydd arwyddocaol hyd a lled Cymru. Y 'Gogledd Orllewin' fel finna' yw milltir sgwâr y ddau sy'n gyfrifol am y casgliad. Rhoesant bic i lawr at Ddinbych y Pysgod a hyd yn oed cofio am Heledd a'i helyntion ar y Gororau yn y 9fed ganrif.

Mae'r tynnwr lluniau, Geraint Thomas, yn crynhoi effaith y gyfrol yn ei anogaeth yn y rhagarweiniad. "Dysgwch, darllenwch, sychwch y llwch oddi ar eich esgidiau cerdded ac ewch i chwilio am y perlau sy'n cuddio ar hyd a lled Cymru."

Alla i ddim bellach ddilyn ei gyngor, hyd yn oed efo bws, ond efo'r llyfr yma mi allaf gael blas a gwerthfawrogi ein treftadaeth gyfoethog. Dyma oedd yn y twll ers talwm oedd yn poeni cymaint arnaf.



Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y rhifynnau o

## Gair bach Bethlehem

dros y misoedd.

A diolch i chi am ei ddarllen!

Deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Ionawr 12 2022: [tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com)

## Llyfrau Darllen Shân

*Delyth Pollard ac Ann Passmore*



I Shân Osborne mae'r diolch am sicrhau bod ein cyfarfod misol wedi bod yn un difyr dros ben. Bu'n trafod y llyfrau a ddarllenodd yn ddiweddar ac a roddodd gymaint o bleser iddi. Wrth bori trwyddynt aeth hi â ni i Fienna, Algiers, Maine ac hefyd i Wlad yr Iâ. Roedd ei chyflwyniad a'r sgwrsio yn ddiddorol iawn ac aethom adre yn dyheu am gael gafael yn rhai o'r llyfrau a soniodd amdanynt. Diolch yn fawr Shân am roi orig fach o dy amser i ni.

Dyma restr o'r llyfrau wnaeth Shân ac eraill sôn amdanynt.

### Y "good books" yw:

- "The Sealwoman's Gift "(Sally Magnusson)
- "Amy and Isabella"(Elizabeth Strout)
- "Mr Wilder and Me"(Jonathon Coe)
- " The Nickel Boys"(Colston Whitehead)
- " American Dirt"(Jeanine Cummings)

### Y "Good Bad Books" yw:

Nofelau Donna Lyon

"The Thursday Murder Club"(Richard Osman)

"Our House"(Louise Candlish)

Harlem Shuffle....Colston Whitehead

The underground railroad. .... "

Hamnet.....Maggie O'Farrell

Beautiful world.... Sally Rooney.

The painted veil....Somerset Maugham.

Llyfre Carlo Levi

**HANES YN Y TIR** (Edrych am hanes Cymru) - Elin Jones

**Y BACHGEN, Y WAHADEN, Y LLWYNOG A'R CEFFYL** - Charlie Mackesy. (Cyfieithiad Mererid Hopwood)

Diolch Shân, a hefyd i Ann Jones ac Eirlys Davies, (Radur}. Pob hwyl gyda'r darllen!!

### NEWYDDION

- Cydymdeimlwn â Rhian Huws, sydd wedi colli ei modryb yn y Gogledd.
- Dymuniadau gorau i Anna Glyn sydd newydd newid ei swydd gan adael y BBC a symud at newyddion digidol S4C.
- Pen-blwydd Hapus i'n hysgrifennydd ym Methlehem. Mae Rhodri-Gwynn Jones, Pentyrch, newydd groesi i ddegawd newydd yn ystod y dyddiau diwethaf. A da gweld Ann Jones, ei briod, yn ôl ar ei thraed ar ôl cael clun newydd.
- Un o'n beirdd ni, Martin Huws, sy'n destun portread yn y rhifyn diweddaraf o "Eisteddfota"
- Mae Marged Sion ar daith rownd y wlad fel lleisydd gyda'r band 'Self Esteem' sy'n cael cryn groeso yn y wasg.
- Mae cynrychiolydd newydd Dwyrain Caerdydd yn Senedd Ieuenctid Cymru, Ffion Williams, yn wyres i Mrs Betty Williams, Radur. Llongyfarchiadau iddi a hwyl ar y gwaith.

## Yr Eisteddfod yn ôl

Sioned Wyn

Ddydd Sadwrn 22 Ionawr fydd Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd yn ei hôl i Ysgol Plasmawr. Hon fydd eisteddfod leol gyntaf Cymru i gael ei chynnal lle bod pobl yn cael dod ers bron i ddwy flynedd. Ry'n ni fel pwyllgor yn edrych mlaen yn fawr i'ch croesawu chi i gyd yn ôl, yn ddiogel, a chan ddilyn rheolau COVID-19 Llywodraeth Cymru.

Mae manylion y cystadlaethau llwyfan i gyd ar ein gwefan [eisteddfodcaerdydd.cymru](http://eisteddfodcaerdydd.cymru). Mae rhywbeth at ddant pawb, gobeithio! Mae cyfle i chi gofrestru ar gyfer cystadlu, ac ry'n ni'n eich annog i wneud, yn enwedig ar gyfer y cystadlaethau unigol, er mwyn i ni allu trefnu rhagbrofion os oes angen.

Ry'n ni hefyd yn chwilio am noddwyr ar gyfer yr eisteddfod. Gallwch noddi cystadleuaeth benodol (gan gynnwys cystadlaethau gwaith cartref), neu wneud cyfraniad i'n helpu i gynnal yr eisteddfod. Os hoffech gyfrannu, dylech anfon e-bost at [cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru](mailto:cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru). Yn ogystal, fel ym mis Ionawr 2020, bydd angen gwirfoddolwyr arnom i helpu'r eisteddfod redeg ar y diwrnod. Felly os hoffech wirfoddoli ar y diwrnod, anfonwch e-bost atom yn nodi eich argaeledd. Bydd shifftiau yn para tua dwy awr.

Gan obeithio eich gweld chi ym mis Ionawr!



## Cofio Menna Basset



Cynhaliwyd "Dathliad o Fywyd" Menna Bassett, Pentyrch, ar Hydref 28<sup>ain</sup> yng Nghapel Y Wenallt, Y Ddraenen Wen. Fel y cyfeiriwyd yn ein rhifyn diwethaf, bu farw Menna ar Hydref 3<sup>ydd</sup> ac yn unol â'i dymuniad, trefnodd ei thair merch, Sara, Sian, a Lynne, fod y dathliad yn un dyrchafol ac yn adlewyrchiad o'i bywyd positif a lliwgar.

Drwy ddefnyddio'r wyddor i nodi rhai o gerrig milltir eu hatgofion, clywsom gan Sian a Lynne am ei dyddiau cynnar yn yr ysgol a choleg yn Aberystwyth, ei meistrolaeth o ieithoedd a'i hoffter o deithiau tramor. Clywyd hefyd am ei dawn fel cyfeilydd a'i hymlyniad at gôr merched ysgol ardal Trelái a chysylltiad y cantorion hynny â'r diweddar Ryan Davies. Cyflwynwyd atgofion yr wyrion a'r wyresau gan Sébastien, aelod ifanc o'r teulu sy'n

byw yn Ffrainc. Bu ffrind i'r teulu, Pat Griffiths, hithau yn rhannu ei hatgofion am Menna a chafwyd datganiad ar y feiolin gan Elenid Owen.

Delwyn Sion oedd yn arwain y gwasanaeth a chafwyd cyfraniad a gair o deyrnged hefyd gan y Parchedig Kevin Davies, Y Barri. Fel nodwyd yn neges y merched yn y "Gair Bach" diwethaf, derbyniwyd cyfraniadau er cof am Menna at Hosbis Y Ddinas, fu'n gofalu amdani yn ystod ei gwaeledd.



Cais ges i gan Ifan i ddweud gair am y Llestri Cymun. Rhaid oedd ufuddhau, er nad oes gen i lawer o wybodaeth fanwl. Erbyn hyn ryden ni gyd wedi dod i arfer derbyn y Cymun ym Methlehem mewn modd ychydig yn wahanol. Mae hyn yn angenrheidiol wrth gwrs er mwyn diogelu pawb rhag yr haint.

Nid yw pob traddodiad Cristnogol yn defnyddio cwpanau unigol i rannu Gwin y Cymun rhwng y gynulleidfa. Arfer pur ddiweddar yn hanes Cristnogaeth yw'r defnydd o gwpanau unigol. Gwyddom mai un Cwpan a ddefnyddir yn yr Eglwys Esgobol yng Nghymru ac yn Lloegr a hwnnw'n cael ei gynnig gan yr Offeiriad i bob Cymunwr yn ei dro. Yn ystod 2020 yn Lloegr bu dadlau yn y Llysoedd Barn am yr arfer hwn, oherwydd y pryder o ledaenu'r haint. Dwi ddim yn siŵr a gafwyd datrysiad boddhaol i'r ddadl erbyn hyn. Dim ond rhannu'r bara fu'n digwydd yn yr Eglwys yng Nghymru am rai misoedd yn ddiweddar gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a Bwrdd Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru.

Pan fyddwn yn darllen hanes y Swper Olaf yn yr Efengylau darllenwn fod yr Iesu wedi cymryd y Cwpan a dweud gweddi o ddiolch cyn ei rannu gyda'r disgyblion. Bydd rhai ysgolheigion yn gofyn a'i un Cwpan a basiwyd rhyngddynt neu a oedd cwpanau unigol gan bob disgybl?

Am ganrifoedd arfer yr Eglwys Gristnogol oedd i'r Cymunwyr dderbyn y gwin gan yr Offeiriad o un Cwpan a'r gwin hwnnw'n wedi ei gysegru. Felly roedd hi yn hanes yr Annibynwyr cynnar. Yn ei gyfrol 'Hanes Annibynwyr Cymru' mae R. Tudur Jones yn adrodd hanes yr hen Ymneilltuwyr a dyma ddywed am eu dull o gymuno yn y 1750'au. *"Un o'r pethau trawiadol am ddefosiwn yr Annibynwyr yn y cyfnod hwn oedd eu pwyslais dwysach ar y Cymun. Gweithred sacramentaidd gan yr eglwys oedd y Cymun iddynt, ac ar ôl i'r gweinidog roddi diolch am y gwin byddai'r Cwpan yn cael ei basio o law i law trwy'r gynulleidfa"* Dwi ddim wedi llwyddo i wneud digon o ymchwili i gael gwybod yn iawn pryd y newidiodd



yr Ymneilltuwyr yng Nghymru yr arfer o un Cwpan i Lestri Cymun unigol.

Gwelais ar y We fod cwpanau unigol wedi dechrau cael eu defnyddio yn Scandinafia ac America yn 1890'au. Y rheswm am y newid oedd y perygl o heintiau yn lledu ymhlith yr addolwyr, yn arbennig y TB. A dyma ni ym Methlehem yn 2021 wedi newid ychydig ar ein trefn gymuno er diogelwch pawb.

Mae ambell un wedi gofyn o ble daeth y Cwpanau a'r Soseri bach metal sy' gennym? O un o Gapeli'r Rhondda y daethant yn 1990'au. Cwpanau bach gwydr heb Soseri oedd ym Methlehem pan ddaethon ni yma yn 1985. Roedd rheini'n drafferthus iawn i'w golchi ac yn cracio'n aml a rhaid oedd eu hadnewyddu. Tua 1990 gofynnwyd i TJ fynd i gymryd rhan mewn Oedfa ddatgorffori (cau) achos Annibynnol yn Nhonpentre dwi'n meddwl. Sylwodd ar y Set o Lestri Cymun hardd oedd yno, ac wrth gwrs fel Cardi da gofynnodd

beth fyddai'n digwydd i'r Llestri? Cafodd ganiatâd i fynd a nhw at ddefnydd aelodau Bethlehem. Maent wedi bod yn hwylus iawn i'w defnyddio a'u glanhau ar hyd y blynyddoedd. Mae tinc o dristwch yn y stori wrth gwrs, o weld cau achos a fu unwaith yn llewyrchus yn Nhonpentre. Diolch fod defnydd iddynt am nawr ym Methlehem. Am ba hyd tybed?



Stadiwm Dinas Caerdydd oedd y lleoliad. Tachwedd 16 eleni oedd y dyddiad. Roedd tîm Gwlad Belg wedi hen ddiflannu i lawr y twnnel i'r stafelloedd newid a thîm Cymru yn araf gwblhau ei gylch o gerdded i bob cornel o'r cae i gydnabod cefnogaeth y dorf. Ninnau, wedi aros yn ein seddau i gymeradwyo'r bechgyn oedd wedi chwarae mor dda yn erbyn y tîm a restrir yn Rhif Un yn y byd, yn dyblu a threblu canu ein bod ni 'Yma o Hyd'.

Canu mewn torf. Yr awyrgylch yn drydanol. Ac yn Gymreig. A hynny yn f'atgoffa i am lefydd eraill lle bûm i'n morio canu yn yr awyr agored. Canu carolau bryd hynny. Mae'r gwahaniaeth rhwng côr a chynulleidfa yn canu emyn o unrhyw fath yn enfawr. Y côr yn gerddorol ddisgybledig a'r gynulleidfa yn fwy ffwrdd-â-hi. Mae'n dibynnu ar y cyd-destun wrth reswm, ond drwodd â thro rhowch i mi gynulleidfa bob tro. A gwell fyth yr adeg hon o'r flwyddyn, rhowch i mi griw o gantorion yn canu yn yr awyr agored ac yn crwydro hyd y fro i ganu am y geni.

Mae nodyn yn y dyddiadur – Rhagfyr 14, 2008 – oedfa nos ym Methlehem; oedfa gymun. Yna “canu carolau hyd y pentre.” Y flwyddyn ganlynol – Rhagfyr 6, 2009 – wedi oedfa gymun ym Methel, Caerffili “i Waelod-y-garth i ganu carolau yn y pentre.” 2010 cafwyd eira mawr. Ad-drefnwyd priodas Mari Osborne a Gareth Williams. Cynhaliwyd oedfa bore'r Dolig yn nhŷ Wyn a Heulwen ar y Parade. Dim oedfa ym Methlehem oherwydd eira ar Sul ola'r flwyddyn. Ond, - Rhagfyr 12, 2010 – wedi cymun yr hwyr “canu carolau drwy'r pentre.” Ai “hyd y pentre”, “yn y pentre” neu “drwy'r pentre” fe fydd llawer yn cofio am y profiad o gyfarch y gymuned dan arweiniad Marian. Gwyn fyd na chawn wneud hynny eto mewn dyddiau post-pandemig.

Cofio hefyd am ganu hyd strydoedd Yr Eglwys Newydd dan arweiniad Gwawr a chnewyllyn o Gôr Caerdydd yn sail i'r lleisiau. Canu; cerdded; ymgynnull a chwilio am Pwt gan wybod ei fod e'n gwybod nodau'r bâs. 'Clywch lu'r Nef yn seinio'n un, henffych eni Ceidwad dyn.' Mae'r 'henffych' yn f'atgoffa i o Angel Rhif Un ym mhulpudd capel Pendref Bangor [capel John Gwilym ar y pryd] yn cyhoeddi'n hyderus yn nrama'r Geni 'Gogoniant yn y Goruffach i Dduw'! A'r Gweinidog yn ddigon call i beidio â chywiro'r Angel.

Y profiad cynta' o ganu carolau hyd y pentre oedd gydag Aelwyd Llanbryn-mair ym mhym degau'r ganrif ddwaetha'. Am bedair noson fe fydde ni'n crwydro hyd wahanol rannau o'r fro eang ac annwyl honno yn codi arian at Ymchwil i Gancr.

A'r profiad ola i'w gofnodi yma. Fe fu Wynn, fy mrawd, yn Weinidog am gyfnod yn ardal Cwm Eithin. Criw Llangwm oedd y rhain. Dynion yn unig am ryw reswm. Canu yn y pentre. Ar gyrion yn pentre roedd 'na blasdy; chofia i mo'i enw. Yno roedd y sgweier yn byw, neu'n hytrach y Major. “Beth am ganu i'r Major?” medde rhywun a wyddai. “Rhy gynnar!” medde rhywun a wyddai'n well.

Felly, doedd dim amdani ond cerdded y ffermydd a chael croeso ym mhob man. Roedd hi bellach wedi troi hanner nos. “Iawn. Y Major nesa.” Cyrraedd y plas. Ymgynnull wrth y drws ffrynt. A chanu 'i hochor hi. 'O deuwch, ffyddloniaid, oll dan orfoleddu ...' Ac o gofio am dras y major 'O come, All ye faithful ...Ymhell cyn cyrraedd y 'joyful and triumphant' roedd y Major yn sefyll yn y drws, gwydryn yn ei law ac yn tywallt ei fendithion arno ni a phapurau punt a phumpunt yn hedfan i het y casglwr fel dwn i ddim be. “God blesh you boys ... how do you say 'Nadolig thlawen.' Ac meddai hwnnw a wyddai'n well “Diawl, o'n i'n deud bod hi'n rhy gynnar.” Dyna ddyd, fel Gweinidog Pendre, oedd yn nabod ei bobol.



Ar ganol fy swper oeddwn i ryw nos Fawrth yng nghanol mis Rhagfyr 1982 pan holodd Angharad "Ai heno ti yn Ynysybwl?" Yn y dyddiau hynny roedd gen i ail 'swydd' fel dirprwy i Sion Corn mewn ambell Ysgol Feithrin a chapel. Gwaith tymhorol falle, ond gwaith oedd angen i'w gymryd o ddifri a d'oedd cyrraedd yn hwyr ddim yn opsiwn. Roedd Bethlehem yn rhannu gweinidog gyda dwy eglwys arall ar y pryd ac mi roedd gwahoddiad wedi dod i mi wneud ymddangosiad ym mharti 'Dolig plant Ysgol Sul Eglwys y Tabernacl, Ynysybwl. Ond mi ddof 'nôl at hynny.



Y Parchedig Rhys Tudur oedd ein gweinidog yn y cyfnod hwnnw, a gan fod Sardis, Pontypridd a Thabernacl, Ynysybwl yn ddi-weinidog, penderfynwyd rhannu'r swydd ac ysgafnhau'r baich ariannol. Sefydlwyd pwyllgor o naw diacon (tri o bob eglwys) i reoli'r uniad newydd, ac i roi trefn ar faterion ariannol, rota gwasanaethau'r Sul ac yn y blaen. Syniad arbennig o dda, cyd-weithio er lles pawb, ac fe wnaeth yr hoffus Rhys Tudur waith ymarferol arbennig yn gofalu am y tair eglwys. Uniad ddaeth i gael ei adnabod fel 'BST'. Ac mi roeddwn i, yn ddiagon ifanc yn un o'r tri a ddewiswyd i gynrychioli Bethlehem. Buan iawn sylweddolais fod cymeriad y tair eglwys yn wahanol, a'r gymysgedd o gymeriadau oedd yn mynychu'r pwyllgorau'r un mor amrywiol â'r rhai daethom yn gyfarwydd â hwy flynyddoedd yn ddiweddarach ar y 'Vicar of Dibley'. Yr ail o'r tri oedd Ifor Rees, un o arloeswyr cynnar y BBC yng Nghymru. Fel gwŷr llawer, roedd Ifor yn un craff, gyda phrofiad o drin pobol a'r gallu, pan oedd angen, i daflu gair neu ddau o wirionedd i mewn ... gan gynhyrfu'r rhai mwyaf sensitif. A'r trydydd i gynrychioli Bethlehem oedd Eirwyn Evans. Eirwyn oedd Trysorydd Bethlehem, gŵr bonheddig, 'dapper' iawn bob amser (hyd yn oed wrth dorri'r lawnt), ac onest fel sant wrth reswm. Athro ysgol meddylgar a thawel ei ffordd. Ac Eirwyn oedd y trysorydd oedd a'r gwaith o gadw trefn ar faterion ariannol BST.

D'oes gen i ddim lawer o gof am y tri ddaeth o Sardis, ond mae un neu ddau o gynrychiolwyr Tabernacl, Ynysybwl, dal yn glir yn y cof ddeugain mlynedd yn ddiweddarach. Dynion oedd wedi gweithio ar y ffas lo, yn llythrennol, hynny yw. Dynion oedd wedi gweld dioddefaint yn eu gwaith bob dydd ac nad oedd ofn rhannu eu barn yn blwmp ac yn blaen. A dyna ddigwyddai yn aml. D'oes ddim angen gormod o ddychymyg felly i feddwl sut awyrgylch oedd yng nghyfarfodydd BST gyda'r ffasiwn gymysgfa o gymeriadau. I roi blas i chi, yn ystod un cyfarfod tanlyd yn Ynysybwl syfrdanwyd y tri o Fethlehem pan gyhoeddodd un o ddiaconiaid Tabernacl "We on this side think that you are cooking the books, Mr Evans". Poeni am les eu heglwys oeddynt wrth reswm, ond roedd eu dewis o eiriau braidd rhy blaen! Cyhuddiad difrifol, nad oedd gair o wirionedd ynddo. Un gonest a gofalus yn ceisio gweithio o fewn cyfyngiadau ariannol anodd oedd Eirwyn. Er nad felly roedd pawb yn ei gweld hi!

A hefo'r mymryn yna o gefndir am ein perthynas a BST (ar lefel y swyddogion o leiaf), d'oedd o ddim syndod fy mod wedi neidio o'm cadair a gadael fy swper y funud atgoffodd Angharad mi fod plant Ysgol Sul Tabernacl yn aros yn eiddgar am un o gynrychiolwyr Sion Corn.

Lithrais mewn i'm siwt goch a thafu'r barf llaes gwyn, yr het goch a'r welis gwynion i fŵt y car. Troed ar y sbardun a hedfan (wel, ddim yn llythrennol, Triumph Dolomite, nid sled a cheirw oedd gen i) a chyrraedd Tabernacl, Ynysybwl, hefo ngwynt yn fy nwrn. Erbyn i mi gyrraedd roedd parti Nadolig plant y Tabernacl ar fin dod i ben, a seiniau 'Pwy sy'n dŵad dros y bryn yn ddistaw, ddistaw bach' yn swnio'n ddigon di-ffrwt. Hynny siŵr o fod am eu bod wedi'i chanu o leiaf bedair gwaith yn aros y dyn oedd ar ei ffordd 'dros y bryn'. Mae'r diolch i Angharad fy mod wedi cyrraedd o gwbl y noson honno. Am unwaith roeddwn wedi llwyr anghofio fy nyletswyddau. Ond mi lwyddais i achub y sefyllfa rai munudau cyn i ddegau o blant bach Ysgol Sul y Tabernacl orfod dychwelyd adre yn waglaw a heb gael cyfarfod a'r dyn mewn coch. Mi fasa' yna ddagrau wedi bod siŵr i chi. Ond taswn i heb gyrraedd y noson honno, hoffwn i ddim meddwl sut awyrgylch fasa wedi bod yng nghyfarfod nesa'r BST. Diolch na ddaeth i hynny.

Er y cyfarfodydd lliwgar hefo cymeriadau cryfion o wahanol gefndiroedd, daeth llawer o ddaioni allan o'r cyd-weithio rhwng y tair eglwys. Yn enwedig drwy waith dygn Rhys Tudur a'i wasanaeth tawel yng nghymuned Ynysybwl, ardal tipyn llai breintiedig na ni yma ym Methlehem.

Ac ar y nodyn yna hoffwn ddymunu Nadolig Llawen i un ac oll!

## [Cyhoeddwyd yr erthygl isod yn rhifyn mis Rhagfyr o "Tafod Elai"]

"A Gareth Bale newydd dderbyn ei 100fed cap fel chwaraewr peldroed dros Gymru, bum yn pori yn Beibl.net y dydd o'r blaen i weld pa mor aml y defnyddid y term "cant" ynddo.

Yn y Testament Newydd, dim ond yn epistolau Matthew a Luc yr ymddengys, a hynny yn y ddameg adnabyddus honno am hanes y "Ddafad Golledig".

Stori tra gwahanol ydi hi yn yr Hen Destament, ac fe gewch eich syfrdanu ym mhenodau cyntaf Genesis gan y sôn am Shem ac Abraham yn dod yn dad, a hwythau yn gant oed (dwy flynedd wedi'r dilyw yn hanes Shem!)

Fe gostiodd y darn tir yn Sichem, lle y claddwyd esgyrn Joseff wedi iddynt gael eu cludo o'r Aiff, "gant o ddarnau arian" i Jacob.

Byddai dyn a gyhuddai ei wraig ifanc ar gam yn derbyn dirwy o "gant o ddarnau arian".

'Roedd capteiniaid ar "unedau o gant o filwyr", a bu i Dafydd gadw cant o'r ceffylau a ddaliwyd wedi brwydro yn Syria. Bu turnio ac addurno wrth i Solomon ddechrau adeiladu a dodrefnu'r Deml—"gwnaeth gant o fowlenni aur"; "gwnaeth gant o dlysau siâp pomgranadau i'w gosod ar y cadwyni" ac "'roedd cyfanswm o gant o gwmpas y rhwyllwaith ar y top".

Bu offrymu "cant o deirw" wrth gysegru'r Deml wedi iddi gael ei hail-adeiladu.

Ac wrth gwrs y datganiadau – yn "nefoedd newydd a daear newydd" Eseaia – "bydd rhywun sy'n marw yn gant oed yn cael ei ystyried yn ifanc", ac yn ôl y Diarhebion "mae gair o gerydd yn gwneud mwy o argraff ar ddynd doeth na chwipio ffŵl gant o weithiau!"

Pam y diddordeb yn y "cant" tybed?

Wel, hunan-ddiddordeb yn anad dim arall siŵr o fod, er bod peth balchder yn ogystal, gan i'r golofn hon fod y ganfed i mi ei chyflwyno i ddarllenwyr Tafod Elai yn enw Bethlehem, Gwaelod-y-garth.

Gan i hynny ddigwydd ar ddiwedd blwyddyn arall yn ein hanes, meddyliais y gallai fod o ddiddordeb i gymryd cip ar beth o gynnyrch y gorffennol, a hynny trwy gamu fesul degawd ers i'r erthygl gyntaf ymddangos yn **rhifyn Chwefror 2012**.

Adroddiad am yr hyn a ddigwyddodd ym Methlehem, ac yn enw Bethlehem, dros gyfnod Nadolig 2011 oedd honno, gan ganolbwyntio bryd hynny ar y lleol a'r cyfarwydd.

Parhau a'r elfen leol a wnaethpwyd yn **rhifyn Rhagfyr 2012** - manteisiwyd ar gyflwyniad yr Athro Peter Wynn Thomas ar "Anas ac ynotrdd Bethlam" [dathlu 140 oed yr adeilad presennol], a groniclwyd yn ddestlus gan Ifan Roberts ar gyfer "Y Tyst" yn thema i'r golofn.

Yn **rhifyn Rhagfyr 2013** - yr anghyfiawnder dybryd sy'n bodoli rhwng ein Nadoligau cyfforddus ni â'r hyn sy'n wynebu canran uchel o drigolion ein byd sydd ar eu cythlwg oherwydd prinder bwyd a chymorth, gan ddeisyf cefnogaeth i'r elusennau rheini sydd yn ceisio dod a mymryn o obaith i'w bywydau brau.

Erbyn **rhifyn Rhagfyr 2014** - hanes ymweliad a Basilica di San Nicola yn Bari, yn sawdl yr Eidal, a'r wefr o weld llawenydd a dagrau criw o Rwsiaid Uniongred (mewn eglwys Gatholig), oedd yno ar bererindod wrth fedd nawddsant y plant.

Cyhoeddwyd ymdeoliad y Parchedig R Alun Evans, ar ddiwedd y flwyddyn, gan addunedu i gydnabod ei wasanaeth ym Methlehem ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

Yn **rhifyn Rhagfyr 2015** y cafwyd yr adroddiad am y gydnabyddiaeth honno, gan i hynny ddigwydd, yn ôl y drefn "Waelod-y-garthaidd", ar yr 22ain o Dachwedd 2015. Manteisiwyd ar gyflwyniad gan Ifan Roberts fel angor i'r erthygl. Y diweddar (ysywaeth) Cath Edwards a gafodd y fraint o adrodd cerdd gomisiwn ("Y Bugail Da" gan Rhys Dafis) yn gyhoeddus am y tro cyntaf.

Nodwyd cofrestru [Bethlehem.cymru](http://Bethlehem.cymru) ar gyfer gwefan y capel.

Yn **rhifyn Rhagfyr 2016** - nodi mai gair y flwyddyn 2016 oedd "ôl-wirionedd" [post-truth], a hynny yn dod yn sgil Refferendwm Brexit ac etholiad Arlywyddol Trump. Ymddengys bod "gwirionedd" mwyach yn ddibwys ac amherthnasol.

Gair a ddaeth yn agos at y brig oedd "hygge", gair o'r Ddaneg yn disgrifio'r agosatrydd a'r cysur sy'n rhan o'u gwriad! Yn **rhifyn Rhagfyr 2017** - traddodiadau Nadoligaidd ardal Profens yn ne Ffrainc, a'r "santons" (Profonsaleg "santoun", sef sant bychan) yn creu golygfa'r Geni ar sgwâr y pentref, gyda Mair a Joseff a'r baban Iesu yn y preseb yn y canol, ynghyd a'r asyn, yr ych, a'r doethion, ond y cyfan wedi ei osod i adlewyrchu patrwm byw pobl Profens, gyda'r ffynnon a'r dwr ar gyfer y felin wynt, y popty cymunedol, a'r coed pinwydd yn rhan anhepgor o'r cyflwyniad.

Erthyglau mewn cylchgronau a'r gwefannau cymdeithasol oedd yr ysgogiad yn **rhifyn Rhagfyr 2018**. Tarddiad a gwneuthuriad llwch cosmig a'r darogan mai hwn, o bellafoedd y gofod, a ddaeth at ei gilydd i ffurfio ein Daear ni ("Yn

*y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear*”). Geiriau Vaclav Havel oedd y llall, a'r cwestiwn ynglŷn a “gwir natur geiriau Crist?” (*“Yn y dechreuad yr oedd y gair”*)

O lyfr *“Bethlehem – Biography of a Town”*, gan Nicholas Blincoe, y daeth yr arweiniad i **rifyn Rhagfyr 2019**. Bu i'r awdur gyflwyno pwddin Nadolig i'w ddarpar deulu-yng-nghyfraith, nad oedd erioed wedi gweld na phrofi un o'r blaen. Dechreuodd ddarllen y rhestr cynhwysion iddynt, ond chweddodd y tad o glywed, gan egluro bod bron pob un cynhwysyn yn tyfu yn ei ardd, a'r gweddill yn cael eu cludo ar gefn camelod, ar draws yr anialwch, i'r dref, gan farsiantwyr Arabaidd, yn union fel yr aur. thus a myrr yn stori'r Geni!


A **rhifyn Rhagfyr 2020?** – dyma adleisio R S Thomas, Euryrn Ogwen a Jan Morris, gan fynegi gwerthfawrogiad o'u gweledigaeth, ac yn hanes y ddau olaf eu canmoliaeth o'r gofal, a'r dulliau amgen rheini a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod clo er cadw cyswllt a'n gilydd, a gweld y byd trwy lygaid eraill.

*“Caredigrwydd cynhenid sydd wedi cadw ysbytai i fynd, nyrsys yn weithgar, ambiwlansys ar y ffordd, meddygon a gwyddonwyr yn eu labordai nos a dydd, ac wedi peri i gymdogion helpu eu cymdogion, ac i bobol o bob lliw a llun ymddwyn fel y byddai eu dewis Grëwr yn dymuno....”* [Jan Morris].

Cofiwch, os credwch bod cant yn ddigon, neu'n ormod, y chwi, ddarllenwyr brwd y “Tafod”, all roi taw ar y gohebydd a'i siarsio i gymryd saib yn 2022!” Mae hynny yr un mor wir i ddarllenwyr Gair bach Bethlehem!

## Oedfa Sul yr Adferiad

Fel sy'n arferol bellach, dathlir Sul yr Adferiad ym Methlehem ac arweiniwyd yr oedfa gan Wynford Ellis Owen. Gydag o y tro hwn, fel y gwelwch isod, roedd Begw, ei wyres, yn cael cefnogaeth gerddorol ein pedwarawd o'r Eglwys Newydd, Delyth, Heulwen, Pwt a Wyn.



# ODLAU'R GARTH 1

Dwy gerdd ac englyn ar y dudalen gyntaf – "Fory" gan Martin Huws, Ffynnon Taf, ac addasiad gan Rhodri-Gwynn Jones o gerdd ymddangosodd ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar. Ac yna englyn Nadoligaidd.

## Fory

Fel ffair y bydd hi fory:  
y fforman yn whibanu  
wrth i labrwy'r glirio a labelu.  
Sgrech fydd y safle,  
yn groch heb ei gweiddi.

Cyn eu llwytho ar lori'n llawn  
bydd y cerrig ar ymyl yr hewl  
mor ddisgybledig  
â bedde milwyr yn Boulogne.

Fodfedd wrth fodfedd  
yng ngwag-orfoledd amgueddfa  
ailgodir walydd yn gadarn  
nes eu bod  
fel plismyn yn plethu eu dwylo.

Yn y fflat fydda i'n wit-wat,  
y minlliw a'r persawr  
ar lawr ar wasgar.

Diogel y daw'r dydd  
y bydd yr orsaf heddlu gas ei darnio  
mor syth â saeth.

Fel chi o fla'n drych mewn dillad  
parch  
cyn i'r gole ddiffodd.

*Martin Huws*

## Er cof am yr holl fabanod a gollwyd yn y moroedd oherwydd na fedrwn ni rannu

Gobeithiaf y dont o hyd i ti, faban  
Ar fat chwarae gwely'r môr.

Gobeithiaf y gwnant blanced o wymon o'th amgylch  
i'th gadw'n gynnes ar y riffiau tywodlyd.

Gobeithiaf y bydd sigladau'r cwrel yn dy suo,  
A'th fwrthwl sinc wystrys yn sownd yn dy law,

A'r perlau, a'u llygaid ar agor, yn ysgwyd mewn rhyfeddod  
tra'n gwyllo band swigen y morfarch.

Gobeithiaf bod y mor-forynion yn canu i ti  
ac yn cwpanu'r tonnau i'th suo i gysgu.

Gobeithiaf bod y dagrau wedi eu sychu  
gan wyth-troed y fam octopws

Gobeithiaf eich bod wedi glanio mor ysgafn, fabanod,  
Fel pe baech wedi nofio i waelod y môr.

A gobeithio y byddwn ni uwchben  
yn dysgu i groesawu pobloedd i'n glannau

A'u helpu o'u cychod ffo  
a gadael iddynt fyw ar dir diogel.

Mae'n rhy hwyr i chwi.

Gobeithiaf eich bod i'll dau wedi glanio'n saff ym mreichiau'r mor-  
forynion.

*[Aralleiriad (gan RhGJ) o gerdd wreiddiol gan Hollie McNish]*

A diolch i Wynford Ellis Owen am roi benthg un o englynion Nadolig ei ddiweddar dad i ni, ar  
gyfer y rhifyn hwn:

## NADOLIG

Celyn a thelyn a tân – ar aelwyd,  
A charoli diddan;  
A'r hen fyd i gyd yn gân  
O achos y Mab Bychan.

**Robert Owen –(tad Rowenna, Arwel a Wynford)**

Ac ar ein hail dudalen – cerdd amserol gan Hannah Roberts (a chyflwyniad diddorol yr awdur i genfdir y gerdd).

### JOSEFF YN Y “NEON”

Nadolig dwetha’ cynhaliwyd cyngerdd yn Rhydychen i ddiolch i’r tîm o’dd wedi creu’r brechlyn. Ar gyfer yr achlysur 'ma, fe ‘sgrifennws y cerddor John Rutter garol newydd o’r enw “Joseff”, a Bryn Terfel yn ei chanu. Wrth wrando ar y gyngerdd ar Radio 3, cafwyd cyfweiliad gyda’r cyfansoddwr, ac eglurodd pam y cyfansoddodd y garol am Joseff. Dywedodd ble bynnag y gwelwch lun o’r Natifiti ma’ hwn yn y cysgodion, tra bod pawb arall yn ca’l sylw’r artistiaid. Wrth glywed hyn, dyma fi’n moelyd y nghlustie achos o’n i newydd sgrifennu cerdd ar yr union destun a’r un sentiment y gwmws!!

Nawr 'te, sgwn i a lice’r cyfansoddwr glywed y gerdd meddylies? Dyma fynd ati i’w chyfansoddi i’r Sisneg, a chyda help caretig Bryn Terfel, anfonwyd y gerdd at John Rutter.

Daeth yr ateb nôl, “Charming and delightfull”.

### Joseff

“Dw i ishe bod yn Joseff”

brefai Deio, ar ôl gorfod arwain y praidd ETO!!! a’i liain  
am ei ben.

Ar lwyfan Y Geni ar hyd yr oesau  
wrth ei gastio yn olew eu dramau,  
bu arlunwyr yn ddibris iawn o’r boi ma,  
gan greu gŵr dinod ohono.  
rhyw “xtra” yn y chwarae.

Yn stablau Boticelli, Rubens a Giotto,  
Mair, Y Doethion a’r bugeliaid yw sèr Bethle’  
(a’r angylion wrth gwrs,) a’u henwau mewn neon  
dros y theatrau cynfas.

Piero Della Francesca  
a’i natifiti gynnar o “giaroschuro”  
yn goleuo’r geni,  
a’r tad yn y tywyllwch,  
yn syndod o saer.

Ond  
mae y Joseph hwn yno,  
yn olau ar yr aelwyd,  
yn gefen,  
yn gryfder yn y celf.

Hwn

sy’n derbyn yn dawel  
y gwenwyn ar dafodau Nazareth,  
Hwn sy’n herio Herod,  
y gwladwr ffyddlon hwn  
gymerodd Un yn fab,  
gan gredu’r wyrth  
gwrandawodd hwn ar Gabriel  
a’i enwi’n Iesu.

“Dw i ishe bod yn Joseff”.

Bydd yno eleni eto  
yn derbyn y doethion  
yn ei benwisg shimpil.

Ond

nid clwtyn llestri o foi o’dd hwn,  
fe’i ddewiswyd yn dad i Waredwr,  
derbyniodd y wyrth.

Eleni,

gosodwn ei enw yn y neon  
dros lwyfan yr Ŵyl.  
Hannah Roberts

*Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda*

*i bawb chonoch.*

*Daliwch ati a chadwch yn ddiogel.*

